**TGAU**

3010N10-1

S19-3010N10-1

**DYDD MAWRTH, 11 MEHEFIN 2019 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o fywyd anodd i ni.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.
Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
    - *Pa fath o bethau sy'n anodd ym mywydau'r beirdd?*
    - *Beth sydd wedi newid erbyn diwedd y cerddi?*
    - *Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.*
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull / mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Gweld y Gorwel**

Yn *rehab* y colli nabod – sŵn traed
sy'n troi'r awr ddiddarfod,
sŵn y byw diflasa'n bod.

Yn *rehab*, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,
bod drwy'r daith hunanol
wna *druggie*'n dod o'i rigol.

Yn *rehab* o dan label, – yn nheilchion
ergydion ei gawdel
gwrid ei gariad yw gorwel.

Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,
rhanna ias cyfarfod,
y sŵn byw melysa'n bod.

*Aneirin Karadog*

**Pedair Wal**

Pedair wal o 'nghwmpas i
yw fy stafell wely,
pedair wal o filwyr i'm cadw'n saff.

Ofn mynd allan,
ofn wynebu'r byd mawr, creulon,
byd y dagrau,
byd y geiriau cas.

Ofn edrych ar y sgrîn,
a phob neges yn gyrru'i ewinedd
yn ddyfnach i'r galon.

Pedair wal o 'nghwmpas i
yw fy stafell wely,
pedair wal o filwyr i'm cadw'n gaeth...

... hyd nes i mi gael
dy neges di,
llun wyneb crwn
a'i lond o wên.

*Arwyn Jones*

**DIWEDD Y PAPUR**